# Offerynnau Statudol sydd ag Adroddiadau Clir
07 Hydref 2019

## SL(5)444 – Gorchymyn Awdurdodau Lleol (Newid Blynyddoedd Etholiadau Cyffredin) (Cymru) 2019

### Gweithdrefn: Negyddol

Gwneir y Gorchymyn hwn gan Weinidogion Cymru yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 2000, a daw i rym ar 6 Tachwedd 2019. Mae'n newid dyddiad arfaethedig etholiadau cyffredin nesaf cynghorwyr i gynghorau sir, i gynghorau bwrdeistref sirol, ac i gynghorau cymunedol yng Nghymru i ddydd Iau cyntaf mis Mai yn 2022, yn lle dydd Iau cyntaf mis Mai yn 2021. Bydd hyn yn sicrhau nad yw’r etholiadau llywodraeth leol nesaf yn digwydd yr un pryd ag etholiadau cyffredin nesaf y Cynulliad Cenedlaethol.

Mae'r Gorchymyn yn darparu ymhellach (yn Erthygl 4) bod cyfnod swydd cyfredol cynghorwyr presennol a etholwyd i gynghorau sir, i gynghorau bwrdeistref sirol ac i gynghorau cymuned yng Nghymru wedi ei estyn gan un flwyddyn yn unol â hynny.

Mae’r Memorandwm Esboniadol i’r Gorchymyn (yn adran 4) yn nodi “…Wales Act 2017 amended the Representation of the People Act 1983 and prevents the local government elections being taken on the same day as the National Assembly general election. Where both elections are scheduled to take place on the same day the Welsh Ministers must, by order, specify another day on which the ordinary local government elections are to be held”.

Mae'r Gorchymyn hefyd yn dirymu Gorchymyn Etholiadau Awdurdodau Lleol (Cymru) 2014, a oedd yn darparu bod etholiadau cyffredin cynghorwyr i gynghorau sir, i gynghorau bwrdeistref sirol ac i gynghorau cymunedol yng Nghymru yn digwydd yn 2017 yn lle 2016.

**Rhiant-Ddeddf**: Deddf Llywodraeth Leol 2000

**Fe’u gwnaed ar**: 17 Medi 2019

**Fe'u gosodwyd ar**: 20 Medi 2019

**Yn dod i rym ar**: 06 Tachwedd 2019

## SL(5)446 – Rheoliadau Amaethyddiaeth (Cymalau Enghreifftiol ar gyfer Cyfarpar Sefydlog) (Cymru) 2019

### Gweithdrefn: Negyddol

Mae'r Rheoliadau hyn yn dirymu ac yn disodli Rheoliadau Amaethyddiaeth (Cynnal a Chadw, Atgyweirio ac Yswirio Cyfarpar Sefydlog) 1973 ("Rheoliadau 1973") o ran Cymru.

Mae'r Rheoliadau yn rhagnodi telerau, a nodir yn Atodlen 1, o ran cynnal a chadw, atgyweirio ac yswirio cyfarpar sefydlog. Bernir bod telerau o'r fath wedi eu hymgorffori ym mhob contract tenantiaeth daliad amaethyddol, ac eithrio pan fyddant yn gosod atebolrwydd ar un o'r partïon i gytundeb ysgrifenedig sydd wedi ei osod ar y llall o dan y cytundeb.

Mae Atodlen 1 yn rhannu rhwng landlord a thenant daliad y cyfrifoldeb am gynnal a chadw, atgyweirio ac yswirio cyfarpar sefydlog, ac yn gosod atebolrwyddau penodedig penodol ar bob parti o ran y materion hynny.

Mae Atodlen 2 yn cynnwys dirymiadau, gan gynnwys dirymu Rheoliadau 1973.

**Rhiant-Ddeddf**: Deddf Daliadau Amaethyddol 1986

**Fe'u gwnaed ar**: 24 Medi 2019

**Fe'u gosodwyd ar**: 26 Medi 2019

**Yn dod i rym ar**: 01 Tachwedd 2019

## SL(5)447 – Rheoliadau Amaethyddiaeth (Cyfrifo Gwerth Digolledіad) (Dirymiadau) (Cymru) 2019

### Gweithdrefn: Negyddol

Mae'r Rheoliadau hyn yn dirymu Rheoliadau Amaethyddiaeth (Cyfrifo Gwerth Digolledіad) 1978 o ran Cymru, a thri offeryn sy'n diwygio'r Rheoliadau hynny.

Drwy ddirymu Rheoliadau Amaethyddiaeth (Cyfrifo Gwerth Digolledіad) 1978 (a diwygio rheoliadau), bydd landlordiaid a thenantiaid yn gallu setlo hawliadau digolledіad (a lywodraethir gan Ddeddf Daliadau Amaethyddol 1986) gan ddefnyddio gwerthoedd cyfredol y farchnad a dulliau cyfrifo sy'n gweddu i'w hamgylchiadau unigol.

**Rhiant-Ddeddf**: Deddf Daliadau Amaethyddol 1986

**Fe'u gwnaed ar**: 24 Medi 2019

**Fe'u gosodwyd ar**: 26 Medi 2019

**Yn dod i rym ar**: 01 Tachwedd 2019

## SL(5)445 – Gorchymyn Deddf Daliadau Amaethyddol 1986 (Amrywio Atodlen 8) (Cymru) 2019

### Gweithdrefn: Cadarnhaol

Mae'r Gorchymyn hwn yn diwygio Rhan 1 o Atodlen 8 i Ddeddf Daliadau Amaethyddol 1986 fel y mae'n berthnasol o ran Cymru.

Mae adran 64 o Ddeddf Daliadau Amaethyddol 1986 yn rhoi'r hawl i denant daliad amaethyddol, wrth i'r denantiaeth ddod i ben ac wrth iddo ymadael â'r daliad, gael digolledіad oddi wrth y landlord am waith gwella a bennir yn Rhan 1 o Atodlen 8 y mae'r tenant wedi ei gyflawni ar y daliad.

Mae Erthygl 2 o'r Gorchymyn hwn yn dileu paragraffau 5 a 6 cyfredol o Ran 1 o Atodlen 8 ac yn mewnosod paragraffau 4B a 5B newydd. Mae'r paragraffau

newydd yn darparu ar gyfer talu digolllediad am waith gwella o ganlyniad i ddodi deunyddiau gwella pridd, gweddillion treuliad anaerobig, tail a gwrtaith ar y tir (gyda dim cyfyngiadau o ran sut y caffaelir y sylweddau hynny); ac am waith gwella o ganlyniad i dail a gaiff ei storio ac sydd wedi deillio o fwyta, gan dda byw ac aelodau teulu'r ceffyl ar y daliad, rawn (a gynhyrchir ar y daliad ai peidio) neu fwyd anifeiliaid arall nas cynhyrchir ar y daliad.

**Rhiant-Ddeddf:** Deddf Daliadau Amaethyddol 1986

**Fe'u gwnaed ar:**

**Fe'u gosodwyd ar:** 24 Medi 2019

**Yn dod i rym ar:** 01 Tachwedd 2019